CANLLAWIAU, DOGFENNU

# Trawsgydymffurfio: safonau lles lloi (SMR 11) (2024)

Crynodeb o reolau lles sy'n benodol i lloi.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 15 Rhagfyr 2023

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 15 Rhagfyr 2023

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/trawsgydymffurfio-safonau-lles-lloi-smr-11-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys


## Cyflwyniad

## Prif ofynion

## Archwiliadau maes

## Arfer da

## Gwybodaeth pellach



**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/trawsgydymffurfio-safonau-lles-lloi-smr-11-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cyflwyniad

Amcan y gofynion hyn yw diogelu lles lloi trwy bennu'r safonau sy'n ofynnol ar gyfer gofalu amdanyn nhw a'u cadw. Rhaid i bawb sy'n cadw lloi gadw at y rheolau hyn, yn ogystal â'r gofynion lles anifeiliaid fferm (SMR 13).

# Prif ofynion

Rhaid bodloni'r safonau gofynnol canlynol wrth fagu neu besgi lloi:

- rhaid archwilio pob llo sy'n cael ei gadw dan do o leiaf ddwywaith y dydd, a'r rheini sydd allan, o leiaf unwaith bob dydd
- peidiwch byth â chlymu'ch llo heblaw am loi mewn grŵp y gellir eu clymu am gyfnod llai nag awr er mwyn ei fwydo â llaeth neu â llaeth ffug
- ar gyfer llociau unigol:
  - rhaid i hyd y lloc fod o leiaf yr un hyd â chorff y llo pan fydd yn sefyll, er mwyn iddo allu sefyll, troi, gorwedd a llyfu ei hun
  - rhaid i led y lloc fod o leiaf yr un peth â thaldra'r llo at yr ysgwydd pan fydd yn sefyll
- peidiwch â chadw llo dros 8 wythnos oed mewn lloc ar ei ben ei hun oni bai bod milfeddyg wedi dweud bod angen ei ynysu neu fod angen triniaeth arno
- rhaid i loc y llo fod yn lân ac wedi'i ddiheintio yn ôl y gofyn, bydd gwely (sarn) i orwedd arno a chaiff ei oleuo'n naturiol neu'n artiffisial
- dylai llo gael:
  - llaeth tor o fewn 6 awr ar ôl ei eni
  - digon o fwyd sy'n addas i'w oed
  - dŵr yfed glân ar gael bob amser
- mae angen bwydo lloi â hylif o leiaf ddwywaith y dydd iddynt gael digon o faeth. Dim ond pan fydd llo'n gallu treulio bwyd caled yn iawn y gellid ystyried hwnnw'n 'borthiant'

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/trawsgydymffurfio-safonau-lles-lloi-smr-11-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

- dylid dechrau rhoi brasfwyd iddynt pan fyddant yn bythefnos oed

## Archwiliadau maes

- gofalu fod lloc y llo yn ateb y gofynion uchod.
- gwneud yn siŵr bod gan y ffermwr gopi o’r **Lles gwartheg: côd ymarfer**

## Arfer da

- dilynwch y canllawiau yn y Cod Lles ar gyfer cadw lloi dan do
- dylai llaeth sy’n cael ei fwydo i loi ar safle dan gyfyngiadau TB gwartheg gael ei drin â gwres i ladd Mycobacterium bovis
- peidiwch â rhoi llaeth i loi o wartheg sydd wedi adweithio i brawf TB
- cyn belled â bod llaeth o wartheg â TB (adweithyddion ac achosion clinigol) yn cael ei fwydo yn unig i anifeiliaid ar yr un fferm a’i fod wedi’i drin â gwres (mae pasteureiddio’n lladd Mycobacterium bovis), bydd y ceidwad wedi cadw at reolau’r UE
- os ydy’r lloi’n cael eu magu ar system lle mae llaeth yn cael ei fwydo iddynt trwy ddull artiffisial, cadwch olwg fanwl ar faint o laeth y maent yn ei yfed. Os ydynt yn yfed llai o laeth neu’n ei yfed yn arafach, mae hyn yn aml yn arwydd o afiechyd
- dylech gadw lloi sâl neu loi sydd wedi’u hanafu mewn lle addas ar wahân gyda digon o ddeunydd gorwedd sych a chyfforddus iddynt gyda bwyd a dŵr ar gael

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/trawsgydymffurfio-safonau-lles-lloi-smr-11-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Gwybodaeth pellach

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

- Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion

neu gweler y daflen **Trawsgydymffurfio: cysylltiadau defnyddiol (2024)**.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/trawsgydymffurfio-safonau-lles-lloi-smr-11-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.